Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, **14 Mai 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-05/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Sian Williams - fyny at eitem 4-05/19 ac wedyn y Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Angela Hughes
Clerc – Dr Catrin Jones.

Mr Cynan Jones ar gyfer eitem 11-05/19 a.

2-05/19 Ymddiheuriadau:
Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dafydd Lloyd;

3-05/19: Datgan diddordeb
Cyng. Wayne Roberts ar gyfer eitem 8-05/19 b. C19/0426/35/LL Estyniad ac addasiadau i eiddo preswyl – Glyn Peris, Morannedd, Criccieth, LL52 0PP

4-05/19: Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Tref

a. Ethol Cadeirydd 2019/20

Etholwyd y Cyng. Robert Cadwalader yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/20 –ac arwyddwyd y ffurflen o dderbyniad swydd ar gyfer 2019/20.
Cymerwyd y gadair gan y Cyng. Robert Cadwalader.

Diolchwyd i'r Cyng. Elizabeth George am ei gwaith clodwiw yn Gadeirydd y Cyngor yn 2018/19.

b. Ethol Is-gadeirydd 2019/20
Etholwyd y Cyng. Sian Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer 2019/20. Derbyniwyd ffurflen derbyn swydd wedi'i lofnodi ar gyfer 2019/20

c. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog
Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog fel sail ar gyfer 2019-20. Bydd y Rheolau Sefydlog yn cael eu cyhoeddi ar safle We'r Cyngor:

d. Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol
Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Ariannol diwygiedig fel sail ar gyfer 2019-20. . Bydd y Rheolau Ariannol yn cael eu cyhoeddi ar safle We'r Cyngor.

e. Adolygu stocrestr o asedau'r Cyngor
Derbyniwyd stocrestr o asedau'r Cyngor a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru gan y Clerc ar gyfer 2019/20. Yn unfrydol cadarnhawyd y stocrestr yn un cywir.

f. Cadarnhau Asesiad Risg y Cyngor

Derbyniwyd asesiad risg y Cyngor a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru gan y Clerc ar gyfer 2019/20. Yn unfrydol derbyniwyd yr Asesiad Risg . Bydd yr Asesiad Risg yn cael ei gyhoeddi ar safle We'r Cyngor.

g. Cadarnhau gwarant yswiriant

Nodwyd bod angen adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor o 1 Mehefin ar gyfer 2019/20 . Bydd y polisi wedi'i warantu gan BHIB Ltd.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i dderbyn y polisi yswiriant gyda BHIB Ltd .

h. Ethol aelodau'r is-bwyllgorau

Penderfyniad Etholwyd yr aelodau isod i is-bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2019/20 :

i. Is –bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Robert T Price, Dr E Tudor Jones, Dr Ian Rees, Angela Hughes

ii. Is-bwyllgor Cynllunio ,Trafnidiaeth a Mwynderau
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wayne Roberts, Phil Jones, William A Evans, Dafydd Lloyd, Eirwyn Williams

iii. Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Phil Jones ,Dr Ian Rees, Angela Hughes, Eirwyn Williams a chadeiryddion yr Is-grwpiau cymunedol.

j. Ethol aelodau i gyrff allanol
Etholwyd yr aelodau isod i gyrff allanol ar gyfer 2019/20

i. Criccieth yn ei Blodau
Sian Williams a Dafydd Lloyd, Phil Jones fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu

ii. Un Llais Cymru
Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – Clerc fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu

iii. Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Treferthyr
Sian Williams

iv. Neuadd Goffa
Robert Cadwalader

v. Cynrychiolydd Pwyllgor Mynwent Llanystumdwy
Dafydd Lloyd

k. Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn 2019-20 a chyfarfod blynyddol 2020:

Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfod cyffredin y Cyngor Llawn 2019-20 a chyfarfod blynyddol 2020, i'w cynnal am 7 yr hwyr yn Siambr y Cyngor Criccieth:

11 Mehefin 2019	9 Gorffennaf 2019	27 Awst 2019
24 Medi 2019	12 Tachwedd 2019	10 Rhagfyr 2019
14 Ionawr 2020	11 Chwefror 2020	10 Mawrth 2020
14 Ebrill 2020	12 Mai 2020 (Cyfarfod Blynyddol)	

5-05/19 Cadarnhau cofnodion mis Ebrill 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

6-05/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

a. Roedd yn ddrwg gan y Cyngor dderbyn llythyr ymddiswyddiad gan y Cyng. Elizabeth George. Roedd y llythyr yn nodi ei bod wedi bod yn fraint ac yn bleser ganddi i wasanaethau fel cynghorydd tref am ddeunaw mlynedd. Nododd bod cynlluniau cyffrous ar droed yn y dref ac roedd yn dymuno'r gorau i'r cyngor tref yn y dyfodol. Bydd y Clerc yn ysgrifennu ar ran y Cyngor Tref i ddiolch yn fawr iawn iddi am ei gwasanaeth clodwiw. Hefyd, bydd y Clerc yn rhybuddio Cyngor Gwynedd am sedd wag ar y Cyngor er mwyn dilyn y broses angenrheidiol o'i llenwi.

7-05/19: Gohebiaeth

a. Un Llais Cymru - Canllawiau Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref - e-bost 16 Ebrill 2019
Roedd canllawiau Un Llais Cymru wedi eu cylchredeg i aelodau.
Penderfyniad: Nodwyd a derbyniwyd y canllawiau.

b. Un Llais Cymru - Papur Pleidleisio ar gyfer Fwrdd Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr - e-bost 16 Ebrill 2019
Roedd y papurau wedi eu cylchredeg i aelodau
Penderfyniad: Trafod o dan faterion caeedig

c. Un Llais Cymru - Dyddiadau Hyfforddiant yn Llangefni - e-bost 17 Ebrill 2019
Roedd y manylion wedi eu cylchredeg i aelodau.
Penderfyniad: Nodwyd a derbyniwyd y wybodaeth

d. Un Llais Cymru – Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019 – ebost 29 Ebrill 2019
Penderfyniad: Nodwyd a derbyniwyd y wybodaeth.

e. Cyngor Gwynedd - Deddf Priffyrdd 1980, Adran 116 - Cais Arfaethedig i gau rhan o Ffordd Ddi-ddosbarth - Croesfan Merllyn, Y Prom, Criccieth- llythyr 30 Ebrill 2019
Roedd y llythyr wedi ei gylchredeg i aelodau ac yn nodi bod y Cyngor yn ystyried bod hyd y ffordd Croesfan Merllyn bellach yn ddiangen rheidiol ar gyfer traffig cerbydol. Roedd Cyngor Gwynedd yn gwahodd sylwadau ar y bwriad. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi derbyn adroddiad ar lafar ym Mis Ebrill (gweler cofnod 10-04/19 y Cyngor

Tref) gan gynrychiolwyr o Network Rail cyn y cyfarfod yn nodi bwriad y cwmni i gyflwyno cais i'r Adran Briffyrdd i gau Croesfan Merllyn i drafnidiaeth ond i'w gadw ar agor i gerddwyr. Roedd y cwmni yn gwarantu y byddai arwyddion ar gyfer parcio yn cael eu symud.
Penderfyniad: : Nid oedd gan y Cyngor Tref wrthwynebiad i'r cynlluniau a oedd wedi eu cyflwyno iddynt gan Nework Rail a dylid danfon cadarnhad o hyn i Gyngor Gwynedd gyda chopi o gofnod 10-04/19 y Cyngor Tref.

8-05/19: Ceisiadau Cynllunio

a. C19/0382/35/CT Gwaith i goed sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Gadwraeth - 45 Gorseddfa, Criccieth, LL52 0DW
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

b. C19/0426/35/LL Estyniad ac addasiadau i eiddo preswyl - Glyn Peris, Morannedd, Criccieth, LL52 0PP
Penderfyniad: .Dim gwrthwynebiad

9-05/19 Archwiliad Mewnol ac Allanol o Gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19

a. Archwiliad Mewnol

Nodwyd bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad mewnol gan yr archwilydd a apwyntiwyd gan y Cyngor a bod adroddiad wedi'i dderbyn yn cadarnhau bod y cyfrifon mewn trefn. Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor. Dengys yr adroddiad bod yr amcanion rheolaethol a brofwyd yn foddhaol.

Nodwyd barn yr archwiliad:

"Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Tref Criccieth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

- Methiant i gofnodi'n briodol roddion i elusennau, h.y. nid yw'n amlwg o dan ba bwerau gwnaethpwyd y rhodd a p'run ai oedd yn wariant dan adran 137 ai peidio."

Roedd yr archwiliwr yn diolch i'r Clerc am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad.

Roedd yr argymhelliad yn cyfeirio at y daenlen incwm a gwariant sy'n rhestri yn unigol o dan bennawd cyfraniadau'r rhoddion a wnaethpwyd yn ystod yn flwyddyn. Nodwyd bod cofnodion y Cyngor Tref yn cofnodi'n glir o dan ba bwerau yr ystyriwyd y ceisiadau am roddion ac y gwnaethpwyd y rhodd - mater bach a syml felly oedd ychwanegu cyfeiriad i'r pŵer ar y daenlen. Yn ogystal roedd hyn wedi bod yn faen prawf yn yr archwiliad allanol ar gyfer cyfrifon 2017-18.

Nodwyd hefyd bod y Clerc wedi cyflwyno'r cais am ad-daliad TAW ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19.

Penderfyniad: Derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd i weithredu ar yr argymhelliad a chadarnhau hyn gyda'r archwilydd gan ategu bod y Cyngor Tref yn nodi'r pŵer a ddefnyddiwyd

ar gyfer ystyried ceisiadau am roddion yn y cofnodion ac felly unrhyw rodd a wnaethpwyd. Diolchwyd i'r Clerc a'r archwilwyr mewnol am eu gwaith.

b. Archwiliad Allanol

Roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau ac arwyddo'r adrannau perthnasol o'r ffurflen archwiliad allanol ar gyfer 2018/19 a oedd wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr ar gyfer ystyriaeth. Nodwyd y byddai'r Clerc yn trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor a'r safle We am y cyfnod priodol a nodwyd gan yr Archwilwyr Allanol (BDO) er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cyfrifon. Roedd angen cyflwyno'r wybodaeth archwilio i'r BDO a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdano erbyn 1 Gorffennaf 2019.

Penderfyniad: I gyflwyno'r ffurflen allanol derfynol i'r Cyngor i'w gymeradwyo yng nghyfarfod Mis Mehefin o'r Cyngor.

10-05/19 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth

Dim byd i'w adrodd

11-05/19: Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a.Prosiect Stryd Fawr

Roedd adroddiad gan y Rheolwr Prosiect wedi ei gylchredeg. Nodwyd y canlynol:

Lansiad o'r prosiect - Cafwyd Lansiad o'r prosiect Yng Ngardd Gwesty'r Lion ar 19eg o Ebrill gyda chynrychiolaeth dda iawn o'r Cyngor , siopwyr a chefnogwyr y prosiect .Cafwyd sylw yn y wasg leol(Cambrian News) ac ar lein gan Bapurau Gogledd Cymru.

Prif waith Celf /Cerflun- Y briff wedi ei ryddhau yn gyhoeddus trwy lwyfannau cymdeithasol Darganfod Criccieth ac eraill- hefyd manylion wedi eu danfon yn uniongyrchol at nifer o artistiaid gyda chydnabyddiaeth o £10,000 i'r dewis terfynol. Derbynnir dyluniadau erbyn 1/6/19 ac fe hysbysir yr artist buddugol o'r penderfyniad erbyn 8/6/19. Rhaid I'r gwaith fod wedi ei gwblhau a'i osod yn ei le erbyn 1/10/19.

Roedd angen i'r Cyngor gymeradwyo creu panel i ystyried y cynigion ac i ddirprwyo cyfrifoldeb dewis terfynol i'r panel gan fod y prosiect ar y cyd gyda Fforwm Busnes Criccieth. Cytunwyd ar y panel canlynol i gwrdd ar 4ydd Mehefin yn Siambr y Cyngor Criccieth

- Cadeirydd ac is gadeirydd a Chlerc y Cyngor
- Dau gynrychiolydd o'r is -grŵp celf y fforwm busnes
- Cynrychiolydd o'r grŵp marchnata
- Cynrychiolydd o'r siopau

Y panel i adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref yng nghyfarfod Mis Mehefin.

Prosiect siopa a Hanes - Y mae Robert Cadwaladr yn parhau a'r gwaith.

Gardd Cerfluniau- cafwyd caniatâd gan berchnogion y Lion i ddefnyddio'r ardd i arddangos cerfluniau sydd yn cael eu hysbrydoli gan y prif waith celf (ee'r gystadleuaeth uchod). Dyma leoliad ar gyfer y Digwyddiad Creadigol ar Sadwrn Awst 3ydd-. Peintio wynebau, arlunio cymunedol a gweithdai celf o dan gynfas.- Y mae gwahoddiadau wedi mynd allan i grefftwyr ddangos diddordeb mewn rhedeg

gweithdai, ac eisoes cafwyd ymatebion positif. Llogwyd yr Ystafell werdd yn y Neuadd -Goffa i arddangos gwaith disgyblion Ysgol Treferthyr.

Yn ogystal benthycwyd cerfluniau nodedig gan unigolion i'w lleoli yn yr Ardd.

Nodwyd bod gwaith da yn mynd ymlaen gan unigolion yn y dref i wireddu'r prosiect a diolchwyd iddynt am ei gwaith. Nodwyd bod ystyriaethau Cynllunio, Iechyd a Diogelwch ac Asesiadau risg priodol ar y gweill ar gyfer y diwrnod a hefyd gosod y cerflun.

Penderfyniad: Diolchwyd am yr adroddiad a derbyniwyd a dirprwywyd hawl i'r Panel a nodwyd uchod i ddewis y cerflun.

b. Cynllun Cymunedol Criccieth

Da oedd medru adrodd ar brosiect amgylcheddol sydd wedi ei sefydlu er mwyn annog trigolion Criccieth i ailgylchu. Cafwyd bore llwyddiannus iawn yn Neuadd Goffa Criccieth ar ddydd Sadwrn 4 Mai - roedd yr Ystafell Werdd yn Orlawn - tua 70 o bobl. Roedd adborth cadarnhaol iawn i'r gwaith yn y gymuned. Roedd y Grŵp Amgylcheddol wedi'i sefydlu yn sgil Cynllun Cymunedol Criccieth.
Penderfyniad - Derbyn yr adroddiad ac ysgrifennu i longyfarch y Grŵp gan nodi hefyd y gwaith da sydd yn mynd ymlaen yn yr Ardd Natur gan grŵp o wirfoddolwyr.

c. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell

Derbyniwyd adroddiad ar y cyfarfod cychwynnol gyda Donald Insall a Chwmni Celyn ar 7fed Mai. Roedd yr adroddiad yn nodi cyd-destun y prosiect ac amlinellu rhaglen ar gyfer ei gwblhau erbyn diwedd Medi 2019. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyno Adroddiad Cyflwr i gyfarfod mis Mehefin y Cyngor Tref ac yn cynnwys Sesiwn Ymgysylltu Cymunedol ym Mis Medi.
Penderfyniad – Derbyn yr adroddiad.

12-05/19: Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell
Dim byd pellach i'w adrodd – gweler hefyd 11-05/19 c

13-05/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol
Nodwyd bod y Clerc wedi danfon e-bost i Swyddog Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ymateb ar y camau nesaf:

1. Adnabod cyflymder cerbydau ar hyn o bryd ar y A497 ar y ffordd i mewn i Griccieth o gyfeiriad Pwllheli –Roedd Cyngor Gwynedd wedi gosod mesurydd traffig ar y ffordd ganlynol. Y bwriad yw gadael y mesurydd allan ar y safle tan ddiwedd yr wythnos, a bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu'n ôl a chwi i drafod y camau nesaf..

2. Adnabod pwy sy'n berchen ar y tir lle mae'r llwybr yn gul - - Bwrdd Iechyd Beti Cadwaladr sydd berchen ar yr eiddo canlynol o'r ffin y tai cyfagos i'r ffordd Fawr. Felly ar hyn o bryd nid yw'r llain yma yn agored i wasanaeth canlynol wneud unrhyw addasiadau iddo. Roedd Cyngor Gwynedd wedi

bod mewn trafodaethau gyda Betsi Cadwaladr mewn perthynas â'r mater ond wedi methu dod i unrhyw gytundeb mewn perthynas â materion cynnal.

3. Adnabod oes yna gyfyngiadau eraill a all effeithio'r gallu'r gwasanaeth adeiladu'r llwybr. Roedd yn debygol o gostio £12,000 i gwblhau. Ar hyn o bryd nid oes gan y gwasanaeth yr arian i adeiladu'r cynllun, ond mi fydd y gwasanaeth yn cadw dymuniad y Cyngor Tref ar ei rhaglen o welliannau i'r isadeiledd priffyrdd.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad ac aros am ymateb Cyngor Gwynedd.

14-05-/19 Torri gwair yn y dref

Roedd y Clerc wedi ymateb i gais Cyngor Gwynedd ynglŷn ag amseru torri gwair yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod angen toriad arall yn y dref ar fyrder.

Penderfyniad: Derbyn er gwybodaeth. Y Clerc i gysylltu i holi am y toriad nesaf.

15-05/19: Parcio yng Nghriccieth

Nodwyd bod angen cael arwydd mawr clir yn cyfeirio ceir i'r prif faes parcio o'r ffordd fawr.

Penderfyniad: I sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd gan nodi bod y Cyngor Tref yn barod i dalu am yr arwydd.

16-05/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

17-05/19 Meinciau Tref Criccieth

Nodwyd bod y Cyng. Robert Cadwalder wedi cynnal arolwg o'r holl feinciau tref a bod Criccieth yn ei Blodau wedi paentio nifer ohonynt.

Penderfyniad: Diolch yn fawr i'r Cyng. Robert Cadwalader a Criccieth yn ei Blodau am eu gwaith.

18-05/19 Llwybrau cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11

Nodi bod y Clerc wedi e-bostio a danfon lluniau Cyng. Wayne Roberts o'r Llwybr i'r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd - roedd y Swyddog yn ymchwilio i'r mater ac am drefnu cyfarfod maes o law.
Penderfyniad: derbyn yr adroddiad ac y dylai'r Clerc ddanfon copi o'r lluniau i aelodau'r Cyngor Tref er gwybodaeth.

19-05/19 Hysbysfwrdd y Cyngor

Roedd yna dri opsiwn wedi eu cynnig a'i chylchredeg i aelodau ar gyfer steil llythrennau i hysbysfwrdd newydd y Cyngor Tref.
Penderfyniad: Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cadw at yr opsiwn gwreiddiol o lythrennau aur.

20-05/19: Derbyniadau

Praesept, taliad cyntaf (Cyngor Gwynedd, 2019-20) £21,000.00

21-05/19: Taliadau

- Cyllid y Wlad/Ysw Cenedlaethol (PAYE) £19.69(siec 101327)

- Cyflog Y Clerc (Ebrill) £770.06 (siec 101328)
- Costau Clerc (ad-daliad deunydd swyddfa) £39.81 (siec 101329)
- BHIB Ltd (Yswiriant) £1,292.16 (siec 101330)
- Menter Môn £1,500.00 (siec 101331)

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

22-05/19: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 11 Mehefin 2019**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **3 Mehefin 2019**